



# Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021

2021 dsc 3

*Rhoi hysbysiad y landlord a thynnu'r hysbysiad yn ôl*

## 7 Cyfyngiadau ar roi hysbysiadau landlord pellach o dan contract safonol cyfnodol

Yn lle adran 177 o Ddeddf 2016 (cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan adran 173: gofynion sicrwydd a blaendal) rhodder—

### “177 Cyfyngiadau ar roi hysbysiadau pellach o dan adran 173

- (1) Mae is-adrannau (2) a (3) yn gymwys pan fo—
  - (a) landlord wedi rhoi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 173 (“yr hysbysiad cyntaf”), a
  - (b) y landlord wedi tynnu'r hysbysiad yn ôl wedi hynny (gweler adran 180(3)).
- (2) Ni chaiff y landlord roi hysbysiad arall o dan adran 173 i ddeiliad y contract cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cafodd yr hysbysiad cyntaf ei dynnu'n ôl, ac eithrio yn unol ag is-adran (3).
- (3) Caiff y landlord roi un hysbysiad arall o dan adran 173 i ddeiliad y contract yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad cyntaf.
- (4) Mae is-adran (5) yn gymwys pan fo—
  - (a) landlord wedi rhoi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 173, a
  - (b) y cyfnod ar gyfer gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 178 wedi dod i ben heb i'r landlord fod wedi gwneud hawliad.
- (5) Ni chaiff y landlord roi hysbysiad arall o dan adran 173 i ddeiliad y contract cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â diwrnod olaf y cyfnod y gallai'r

landlord fod wedi gwneud yr hawliad cyn iddo ddod i ben (gweler adran 179(1) (b)).

- (6) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnodol sy'n ymgorffori adran 173 fel un o delerau'r contract."